



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB5: Opsiynau ar gyfer Twf Tai a Chyflogaeth

Hydref 2026

Opsiynau Twf Tai a Chyflogaeth Crynodeb Gweithredol

Diben

Mae'r papur hwn yn adolygu'r rhagdybiaethau twf tai a chyflogaeth sy'n sail i Zil Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili (2RLDP) 2020-2035. Mae'n diweddarau tystiolaeth flaenorol i adlewyrchu data demograffig newydd, Cyfrifiad 2021, amcanestyniadau aelwydydd diwygiedig Llywodraeth Cymru, tystiolaeth ddiwygiedig ar dir cyflogaeth ac astudiaethau twf rhanbarthol.

Cefndir

Argymhellodd y Papur Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai gwreiddiol Senario J (Twf Poblogaeth Oedran Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) fel yr opsiwn twf a ffefrir. Roedd hyn yn seiliedig ar dwf tai, twf cyflogaeth a chefnogaeth i uchelgeisiau economaidd rhanbarthol.

Diweddariadau i'r Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r asesiad yn ystyried gwaith twf diweddaraf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, canlyniadau Cyfrifiad 2021 ac amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2022. Adolygwyd y diweddariadau hyn er mwyn sicrhau bod y strategaeth twf a ffefrir yn parhau'n gadarn ac yn gyflawnadwy.

Gofyniad Tir Cyflogaeth

Mae tystiolaeth gyflogaeth wedi'i diweddarau (gan gynnwys data cwblhau adeiladu hyd at 2025) yn dangos bod y gofyniad tir cyflogaeth wedi gostwng o 39.6 hectar i 32.8 hectar. Fodd bynnag, mae darparu hyblygrwydd yn parhau'n bwysig. O ganlyniad, adolygir y ddarpariaeth tir cyflogaeth arfaethedig i 40.3 hectar.

Diweddariadau Polisi Cyflogaeth

Mae'r adolygiad yn cadw'r categorïau o Barciau Busnes, Safleoedd Cyflogaeth Cynradd a Safleoedd Cyflogaeth Eilaidd. Mae newidiadau polisi yn darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer defnyddiau priodol tra'n parhau i ddiogelu tir cyflogaeth strategol.

Adolygiad o Safleoedd Cyflogaeth

Mae nifer o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd wedi'u cadw, tra bod eraill wedi'u diwygio neu'u tynnu oherwydd cyfyngiadau llifogydd neu faterion argaeledd. Mae Llwyfandir 1

Oakdale wedi cynyddu o ran maint, tra bod nifer o ddyraniadau yn Nyffryn a Chaerffili wedi'u tynnu.

Asesiad Demograffig Diweddariedig

Profwyd ystod o senarios demograffig, mudol, wedi'u harwain gan gyflogaeth ac wedi'u harwain gan dai. Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau bod twf sy'n cael ei arwain gan dai yn parhau i ddarparu'r gefnogaeth gryfaf i dwf y gweithlu ac amcanion economaidd.

Opsiwn Twf y Cytunwyd Arno

Mae'r Senario J diwygiedig yn parhau i fod y strategaeth a ffefrir. Mae'n darparu ar gyfer twf poblogaeth o 8,848 o bobl, 5,443 o aelwydydd ychwanegol, 6,165 o anheddau newydd, cynnydd o 6,983 o bobl o oedran gweithio a 40.3 hectar o dir cyflogaeth.

Casgliadau ac Argymhellion Allweddol

Mae Senario J yn parhau i fod yr opsiwn twf mwyaf priodol. Mae tystiolaeth wedi'i diweddarau yn cefnogi twf parhaus mewn tai a chyflogaeth, darpariaeth tir cyflogaeth ddiwygiedig o 40.3 hectar, a strategaeth sy'n parhau i gyd-fynd ag uchelgeisiau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac amcanion Cymru'r Dyfodol.